# Papur y Bwrdd

12 Mai 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Adroddiad ynghylch Perfformiad 2015/16<br>Adroddiad ar gyfer diwedd y flwyddyn (1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016) |
| **Cyfeirnod y papur:** | NRW B 26.16 |
| **Papur Noddwyd gan:** | Executive Team |
| **Papur Cyflwynir gan:** | Emyr Roberts |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Ystyried perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cyfnod adrodd diwedd y flwyddyn (rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016)** |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd:<br>• Lywodraethu perfformiad a chraffu arno, er mwyn gallu adrodd ynghylch hynny i Lywodraeth Cymru<br>• Darparu cyngor a chymorth ynghylch addasrwydd parhaus y Fframwaith Perfformiad<br>• Nodi'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiweddaraf |
| **A oes angen penderfyniad?** | Oes, cymeradwyo'r adroddiad ynghylch perfformiad |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** | Sut y mae'r cynigion sydd yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br>• **Ystyried yr hirdymor** – Mae'r dangosyddion yn yr adroddiad ynghylch perfformiad yn creu darlun hirdymor o newid.<br>• **Gweithredu mewn modd integredig** – Mae'r adroddiad ynghylch perfformiad yn ymwneud â phob agwedd ar ein gwaith.<br>• **Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth** – Sicrheir bod yr adroddiad ynghylch perfformiad ar gael i'r cyhoedd.<br>• **Gweithio mewn modd cydweithredol** – Mae nifer o'n dangosyddion yn tracio newid y mae angen i amryw bartneriaid gyfrannu iddo.<br>• **Atal problemau rhag digwydd** – Mae nodi problemau sy'n dod i'r amlwg, yn gynnar trwy'r adroddiad ynghylch perfformiad, yn golygu bod modd i gynlluniau a blaenoriaethau gael eu pennu yn y modd mwyaf effeithiol posibl. |

## Mater

1. Yr adroddiad ynghylch perfformiad yw un o brif ddulliau'r Bwrdd o graffu ar yr hyn yr ydym yn ei gyflawni ac o gefnogi gwaith cynllunio strategol. Mae rownd diwedd y flwyddyn o adrodd ynghylch perfformiad, ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016, wedi'i chwblhau erbyn hyn ac mae'r adroddiad ynghylch perfformiad wedi'i baratoi er mwyn i'r Bwrdd graffu arno cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

2. Caiff gwaith adrodd ynghylch perfformiad ei gyflawni bob pedwar mis. Bu'r Bwrdd yn ystyried y rownd gyntaf o adrodd ynghylch perfformiad ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2015, a'r ail rownd ar gyfer y flwyddyn hyd at 30 Tachwedd 2015 yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2016. Bydd yr adroddiad hwn yn sail i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2015/16.

## Crynodeb

3. Mae adroddiad y Fframwaith Perfformiad (Atodiad 1) yn cynnwys 3 elfen bendant:

- Adroddiad Cryno ynghylch Perfformiad, sef trosolwg un dudalen o'n huchafbwyntiau o ran perfformiad ar sail Cynllun Corfforaethol 2014/17, Cynllun Busnes 2015/16 a'r Achos Busnes dros greu Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Adroddiadau ynghylch Cynnydd sy'n nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt ein dangosyddion a'n mesurau perfformiad corfforaethol ar gyfer pob un o'n pum thema "Da".
- Dangosfwrdd y Cynllun Busnes sy'n rhoi trosolwg un dudalen o'r cynnydd yr ydym yn ei wneud o safbwynt targedau ein Cynllun Busnes ar gyfer 2015/16 a nifer fach o ddangosyddion.

4. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (Atodiad 2) yn dangos yr ystyriaeth ddiweddaraf a roddwyd (ym mis Ebrill 2016) i'r risgiau sy'n gysylltiedig â'n gwaith cyflawni.

5. O safbwynt Dangosfwrdd y Cynllun Busnes, mae ein perfformiad o ran y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn (1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016) o'i gymharu â'n perfformiad ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2015 i 30 Tachwedd 2015 i'w weld yn y tabl isod:

| | Cyfnod 2<br>1 Ebrill 2015 i 30 Tachwedd 2015 | Disgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 | **Y ffigur gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn** |
|---|---|---|---|
| 'Gwyrdd' | 27 | 27 | **28** |
| 'Melyn' | 10 | 9 | **9** |
| 'Coch' | 4 | 4 | **3** |
| I'w gadarnhau | | 1 | **1** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 41[1] | 41 | **41** |

6. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r tri adroddiad "coch" canlynol a'r un adroddiad sydd "i'w gadarnhau":

- Amgylchedd morol, tirol a dŵr croyw (coch): Mae perfformiad Cymru, sef 26%, yn parhau'n anffafriol o gymharu â'r targed o 95% a bennwyd yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru. Ni fydd ein gwaith ni ar ei ben ei hun yn sicrhau'r gwelliannau gofynnol yng nghyflwr nodweddion safleoedd. Mae adnoddau sylweddol yn cael eu defnyddio ar gyfer ein rhaglen o gamau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer safleoedd arbennig. Bydd Cynllun After-LIFE Rhaglen Natura 2000 LIFE yn nodi sut y bydd y rhaglen o gamau gweithredu'n cael ei symud yn ei blaen yng Nghymru a'i hintegreiddio yng nghynlluniau gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bydd sut y byddwn ni ac eraill yn dod o hyd i adnoddau i gyflawni'r gwaith hwn yn cael ei ystyried yn rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun Adfer Natur Cymru. Mae Rhaglen Natura 2000 LIFE wedi llunio fersiwn ddiwygiedig o'r elfen Gymreig sy'n perthyn i Fframwaith Gweithredu â Blaenoriaeth y DU, ac mae wedi datblygu Cynlluniau Gweithredu Thematig ar gyfer Cymru. Bydd y rhain yn helpu i nodi meysydd lle mae prosiectau mawr yn debygol o lwyddo i sicrhau cymorth ac yn debygol o gynnig manteision sylweddol i nodweddion a safleoedd Natura 2000.
- Yr amgylchedd dŵr (coch): Perfformiad Cymru yw 39% â statws ecolegol da, o gymharu â'r targed o 50% a bennwyd yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid i gyflawni canlyniadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Bu i ni gwblhau 81% o'r mesurau a nodwyd yn y cynllun cyntaf ac rydym wedi cynnal dros 1,000 o ymchwiliadau ar draws Cymru. Yn ystod yr ail gylch o Gynlluniau Rheoli Basn Afon, rydym yn bwriadu atal dirywiad yn ein cyrff dŵr a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar statws ecolegol da sy'n cyfateb i 50% gyda tharged cychwynnol o 5% o welliant ar draws Cymru. Mae cynlluniau'r ail gylch wedi cael eu cyhoeddi. Rydym yn gweithio gyda Phaneli Cyswllt i ddatblygu cynllun cyflawni integredig.
- Rydym yn gwella iechyd, diogelwch a lles y gweithlu (coch): Adroddwyd ynghylch deg o ddigwyddiadau a arweiniodd at golli amser ar gyfer staff Cyfoeth Naturiol Cymru hyd yma, o gymharu â tharged o ddim mwy na phump ar gyfer y flwyddyn gyfan. Roedd pob un o'r digwyddiadau yn ddigwyddiadau unigol heb gysylltiad rhyngddynt, a ddigwyddodd ar draws timau gwahanol mewn amrywiaeth o amgylcheddau gweithio. Maent naill ai wedi'u hadolygu neu wrthi'n cael eu hadolygu. Bydd y gwersi a ddysgwyd o'r adolygiadau'n cael eu rhannu â'r gweithlu ehangach er mwyn atal y digwyddiadau hyn rhag digwydd eto. Mae'n bosibl bod mwy o ymwybyddiaeth ynghylch sut i adrodd am ddigwyddiadau wedi cyfrannu at y

[1] Mae gennym 32 o fesurau a 9 o ddangosyddion ar Ddangosfwrdd y Cynllun Busnes. Y dangosyddion yw: Ea Yr amgylchedd dŵr, Ee Yr amgylchedd morol, tirol a dŵr croyw, Pa Rheoli perygl llifogydd, Pd Gwirfoddoli a datblygu sgiliau yn yr amgylchedd naturiol, Ba Prosesu ceisiadau, Bd Ein rôl fel ymgynghorai statudol, Be Cynhyrchu incwm, Oa Mynegai bodlonrwydd cwsmeriaid a rhanddeiliaid, ac Ob Mynegai ymgysylltu â staff.

cynnydd hwn mewn nifer o gymharu â blynyddoedd blaenorol pan nad adroddid yn ddigonol ynghylch pob math o ddigwyddiad yn ein barn ni. Mae ein cynllun gwella ar gyfer 2015/16 wedi'i gwblhau gan gyflwyno ein system adrodd AssessNET, hyfforddiant iechyd a diogelwch wedi'i achredu gan IOSH, darparwyr cymorth cyntaf iechyd meddwl, rhaglenni newydd yn ymwneud ag iechyd galwedigaethol a chymorth i weithwyr, polisi ynghylch adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol, a chynllun i helpu i wrthsefyll straen yn y gwaith.

- Mynegai ymgysylltu â staff (i'w gadarnhau): Yn dilyn ein harolwg cyntaf o staff ym mis Chwefror 2015, bu i ni osod targed ar gyfer gwelliant o 5% yn y mynegai ymgysylltu â staff erbyn yr adeg y byddem yn ailgynnal yr arolwg yn 2016. Mae sesiynau ymgysylltu wedi'u cynnal ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae cynllun cyfathrebu'n cael ei ddatblygu er mwyn ymdrin â'r Adolygiadau o Feysydd Busnes. Cafodd cyfnod ailgynnal yr arolwg ei lansio ym mis Ebrill 2016 a disgwylir y canlyniadau ddiwedd mis Mai 2016.

7. Bydd y Prif Weithredwr yn darparu crynodeb o gyflawniad ar lafar yng nghyfarfod y Bwrdd, a bydd aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol ar gael i ateb cwestiynau gan y Bwrdd.

## Risgiau

8. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiweddaraf (Atodiad 2).

## Goblygiadau ariannol

9. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol yn gysylltiedig â darparu'r Fframwaith Perfformiad.

## Cyfathrebu

10. Bydd angen i'r adroddiad ynghylch perfformiad gael ei anfon at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol.

11. Bydd copi o'r adroddiad ynghylch perfformiad yn cael ei roi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a'i ddefnyddio'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015/16 er gwybodaeth i'r cyhoedd ac eraill.

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

12. Amherthnasol.

## Mynegai i'r Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiad ynghylch Perfformiad 2015/16 ar gyfer diwedd y flwyddyn (1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016)
Atodiad 2 – Y Gofrestr Risg Gorfforaethol